



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Newid yn yr Hinsawdd

Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas /
MS Teams

Dydd Mercher, 15 Mehefin 2022 am 4.00 pm

Yn Bresennol: Y Cyngorydd K M Roberts (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Y Cyngorydd(wyr)

C R Doyle
A J O'Connor

Y Cyngorydd(wyr)

S E Keeton
D Phillips

Y Cyngorydd(wyr)

N L Matthews
S J Rice

Swyddog(ion)

Geoff Bacon
Craig Davies
Rachel Lewis
Paul Meller
Jeremy Parkhouse
Jane Richmond
Mark Wade

Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo
Cyfreithiwr Cyswllt
Rheolwr y Prosiect
Rheolwr Is-adran yr Amgylchedd Naturiol
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
Rheolwr Prosiect – Newid yn yr Hinsawdd Strategol
Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cyngorydd(wyr): E T Kirchner a/ac L V Walton

4 **Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol: -

Datganodd y Cyngorydd S J Rice gysylltiad personol â Chofnod 8 - Adroddiad Statws Cyflawni Adferiad Natur a Newid yn yr Hinsawdd.

5 **Cofnodion:**

Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod(ydd) blaenorol y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Newid yn yr Hinsawdd fel cofnod cywir.

6 **Cylch Gorchwyl.**

Darparwyd cylch gorchwyl y Pwyllgorau Cyflawni Corfforaethol 'er gwybodaeth'.

Gofynnodd y Cyfreithiwr Cyswllt i'r Pwyllgor nodi'r gwahaniaeth rhwng y Pwyllgorau Datblygu Corfforaethol a Chraffu.

7 Adroddiad Statws Cyflawni Adferiad Natur a Newid yn yr Hinsawdd.

Darparodd Rachel Lewis, Swyddog Prosiect y Gwasanaethau Eiddo, adroddiad diweddarau i'r Pwyllgor ynghylch cynnydd o ran yr amcan lles corfforaethol newydd a gynigiwyd - 'Cyflawni Adferiad Natur a Newid yn yr Hinsawdd', y disgwylir i'r cyngor ei ystyried ar 7 Gorffennaf 2022.

Amlinellwyd bod agenda Newid yn yr Hinsawdd ac Adferiad Natur wedi newid yn gyflym dros y 18 mis diwethaf, a bod dau adroddiad wedi'u cymeradwyo gan y Cabinet a'r cyngor (mis Tachwedd 2020 a mis Tachwedd 2021). Cyflwynwyd hefyd adroddiad i Bwyllgor Datblygu Polisi yr Economi, yr Amgylchedd ac Isadeiledd ym mis Mawrth 2022 gan ddarparu diweddiariad o ran statws a chynnig prosiectau ar gyfer blaengynllun.

Darparodd Atodiad A dystiolaeth i ddangos sut byddai timau'n bodloni'r amcan arfaethedig a sut roedd yn gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Amlinellodd hefyd Lywodraethu Newid yn yr Hinsawdd ac Adferiad Natur, adrodd mewnol, adrodd allanol, Adferiad Natur - Cynllun Bioamrywiaeth/Adran 6/Cynllun Gweithredu Adferiad Natur a phrosiectau newydd.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol: -

- Y cyngor yn gweithredu gyda cherbydau trydan/hydrogen, e.e. cerbydau casglu gwastraff.
- Monitro/datblygu/cydlynu'r cynllun gweithredu a'r disgwyliadau i adrannau ddatblygu/fonitro strategaethau a'u cynlluniau gweithredu eu hunain.
- Trefniadau llywodraethu wrth symud ymlaen.
- Cyflwyno manau gwefru/gorsafoedd pŵer i ddarparu'r trydan ychwanegol y mae ei angen ar gyfer cerbydau trydan.
- Adferiad natur, opsiynau tir llwyd, enghreifftiau o arfer da, lleihau gwastraff bwyd, cyflwyno pwyntiau gweithredu ymarferol, cytundebau Adran 106 a helpu i liniaru bioamrywiaeth mewn datblygiadau newydd.
- Cynyddu faint o ddeunyddiau y gellir eu casglu wrth ymyl y ffordd, ystyried y ffordd y mae awdurdodau lleol yn ailgylchu deunyddiau a cheisio gwella cerbydlu/gallu ailgylchu'r cyngor.
- Annog y cyhoedd i gymryd rhan ac addysgu pawb yn y cyngor er mwyn symud pethau ymlaen.
- Opsiynau tymor hwy i aelwydydd tlotach na allant fforddio cerbydau trydan.
- Costau cynhyrchu/llygredd a achoswyd o ganlyniad i gynhyrchu cerbydau trydan.

Penderfynwyd nodi cynnwys y trafodaethau.

8 Cynllun Gwaith

Penderfynwyd gohirio'r eitem tan y cyfarfod nesaf a drefnwyd.

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Newid yn yr Hinsawdd (Dydd Mercher,
15 Mehefin 2022)
Parhad

9 Dyddiad ac Amser y Cyfarfodydd Dyddiad Trafodaeth.

Penderfynwyd gohirio trafodaethau pellach tan y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.00 pm

Cadeirydd